# Adroddiad Cwrs Adnabod Malwod Tir

Ar y 4ydd o Hydref 2013, daeth un ar bymtheg o bobl i Erddi Botaneg Treborth ym Mangor i ddysgu am falwod tir Prydain. Roedd y tywydd gwlyb yn addas yn sicr i'n ffrindiau molysgaidd, ond yn ffodus treuliwyd y bore dan do.

Ben Rowson o Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a chyn-fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor, oedd yn arwain y cwrs. Rhoddodd grynodeb diddorol i ni o ffawna Prydain, gan nodi bod presenoldeb cregyn malwod mewn gwaddodion pridd yn helpu i sefydlu pa rywogaethau sy'n frodorol a pha rai sydd wedi'u cyflwyno gan ddyn. Roedd yn syndod i lawer bod y malwod gardd cyffredin yn perthyn i'r categori anfrodorol.



Disgrifiwyd y cynefinoedd yr oedd rhywogaethau amrywiol yn hoff ohonynt a dywedwyd hefyd bod cynefinoedd addas yn gallu newid gydag amser (e.e. gall sgri agored sy'n cael ei ffafrio gan un grŵp penodol newid yn gyflym i brysgwydd/coetir).

Wedyn eglurodd Ben sut roedd mynd ati i chwilio am samplau o falwod. Defnyddiwyd cyfres o ridyllau gyda thyllau o wahanol faint i ddidoli'r samplau i raddau amrywiol. Yna perffeithiodd aelodau'r cwrs eu sgiliau microsgop drwy bigo'r cregyn mân iawn a geir yn aml allan o'r samplau. Gydag arweiniad Ben, cafodd nifer o'r samplau hyn eu hadnabod drwy weithio drwy allweddi adnabod hwylus iawn.

Roedd ysbaid yn y tywydd drwg yn gyfle i'r grŵp grwydro i'r gerddi i chwilio am samplau ffres o falwod. Cafwyd casgliad nodedig o 16 o rywogaethau o falwod a 9 o wlithod. Gwelwyd un o'r gwlithod mwy lliwgar, yr *Arion rufus*, yn rocio a dawnsio am gyfnod eithaf hir i gynulleidfa frwd! Un darganfyddiad diddorol iawn oedd yr *Hawaiia minuscula*, malwen tŷ gwydr fechan, sy'n gofnod newydd yng Nghymru yn ôl pob tebyg.

Suddodd calon pawb wrth i Ben gyhoeddi y byddai'r cwrs yn dod i ben gydag arholiad byr i brofi'r hyn roeddem wedi'i ddysgu yn ystod y dydd! Er hynny, trodd y nerfusrwydd cychwynnol yn astudio brwd, tawel wrth i aelodau'r cwrs weithio drwy samplau dienw amrywiol. Roeddem yn falch o weld ein bod yn gwybod enwau rhai o'r malwod tir llai anodd eu hadnabod ym Mhrydain. Dywedodd Ben wrthym y bydd ei allwedd Aidgap newydd i wlithod yn cael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf, felly efallai bod cwrs sy'n rhoi sylw i wlithod ar y gorwel.

